| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 20 Tachwedd 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Ehangu Addysg Feddygol - Papur i'w Nodi** |

**Pwrpas**

1. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y cynigion i ehangu addysg ac ymchwil feddygol yng Nghymru.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn nodi:

- Y cefndir
- Cynllun Cofrestru Graddedigion - Abertawe
- Ysgol Glinigol Gogledd Cymru
- Sefydliad Gwyddorau Iechyd Ysgol Glinigol Gwent

**Y cefndir**

3. Mae hwn yn amser cyffrous iawn o ran Iechyd ac Addysg yng Nghymru. Mae yna berthynas symbiotig rhwng y GIG ac addysg ac, i gydnabod hyn, mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i addysgu gweithlu'r GIG a rhoi blaenoriaeth i ehangu addysg feddygol.

4. Targed Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau cynnydd o 65% yn niferoedd y myfyrwyr meddygaeth.

5. Hyd yma, bu cynnydd o 35 y flwyddyn academaidd yn nifer y llefydd yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru o fis Medi 1999 a chynnydd pellach o 65 y flwyddyn academaidd o fis Medi 2001. Mae hwn yn gynnydd o 52%.

6. Mae tua £9 miliwn wedi'i fuddsoddi eisoes yn y gwaith o sefydlu Ysgol Glinigol newydd yn

Abertawe. Dechreuodd yr ysgol newydd gymryd myfyrwyr ychwanegol o fis Hydref 2001. Pan fydd yn gweithredu'n llawn, bydd yr ysgol yn darparu llefydd ar gyfer 100 o fyfyrwyr - 50 ym mlwyddyn 4 y rhaglen i israddedigion meddygaeth a 50 ym mlwyddyn 5.

7. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gyflwyno 70 o lefydd eraill drwy'r Cynllun Cofrestru Graddedigion gan godi nifer criw Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru o 290 i 360 h.y. cynnydd o 89% ar y criw sylfaenol o 190 ym 1999.

8. Ymhlith y datblygiadau arfaethedig eraill mae Ysgolion Clinigol yng Ngogledd Cymru a Gwent - y safleoedd hyn yw'r darparwyr mwyaf ym maes addysg feddygol y tu allan i Gaerdydd ac Abertawe.

**Cynllun Cofrestru Graddedigion - Abertawe**

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i Gynllun Cofrestru Graddedigion sy'n cyd-fynd â phedwar cynllun tebyg yn Lloegr. Cymeradwyodd y Cynulliad y Cynllun yn y Cyfarfod Llawn fel rhan o'r broses o ehangu addysg feddygol yng Nghymru yn gyffredinol.

10. Prif fantais cynllun cofrestru graddedigion yw y byddai, yn ogystal â darparu ffordd o gynyddu niferoedd myfyrwyr, yn:

- cynhyrchu meddygon yn gyflymach
- ehangu ystod y bobl sy'n astudio meddygaeth i gynnwys y rheini na chafodd y cyfle neu nad oedd ganddynt y dymuniad i fynd i'r maes wrth adael yr ysgol; a
- dod â phrofiad ac aeddfedrwydd ehangach o radd gyntaf i'r proffesiwn.

11. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aros am amlinelliad o achos busnes cadarn, a gaiff ei ystyried gan swyddogion yn y ffordd arferol.

**Ysgol Glinigol Gogledd Cymru**

12. Cafodd Bwrdd Partneriaeth Ysgol Glinigol Gogledd Cymru a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarfod adeiladol iawn ar 31 Hydref 2002 i ddatblygu eu hachos busnes.

**Ysgol Glinigol Gwent**

13. Mae swyddogion wedi rhoi eu sylwadau ar yr amlinelliad o'r achos busnes a gyflwynwyd yn gynharach yn yr hydref. Maent yn aros am ymateb ac yna byddant yn cwrdd i drafod y camau nesaf.

**Cydymffurfio**

14. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau i ariannu addysg feddygol drwy swyddogaethau o

dan adrannau 63 yr *Health Service and Public Health Act 1968* [Deddf Gwasanaeth Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968]. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u datganoli a'u trosglwyddo o ran proses o dan Erthygl 2 Gorchymyn Llywodraeth Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae'r pwerau hyn wedi cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Camau i'w cymryd**

15. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas ag ehangu addysg feddygol a chyfleusterau ymchwil yng Nghymru.

**JANE HUTT**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Irene Allen, Addysg y GIG, y Gangen Hyfforddi a Datblygu, yr Is-adran Adnoddau Dynol, Parc Cathays (Est: 5366)